

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: CBS Merthyr Tudful

Mawrth 2014

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: CBS Merthyr Tudful

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

## Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae rhai elfennau cadarnhaol ac addawol yn y weledigaeth a amlinellir (mesur y galw ymhlith rhieni – a hynny am y tro cyntaf ers blynyddoedd mawr; cynllunio a buddsoddi mewn twf yn y sector). Fodd bynnag, teimla UCAC bod diffyg manylder yn yr adran hon ynghylch bwriadau'r Awdurdod, a bod y weledigaeth yn cael ei mynegi mewn termau llawer rhy cyffredinol heb ganolbwyntio'n ddigon penodol ar y *Gymraeg* mewn addysg.

Edrychwn ymlaen at weld fersiwn terfynol y Cynllun yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

## Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

### Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

**1.1 Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:** Mae UCAC o'r farn bod y targedau cynnydd yn annigonol. Nid yw targed o gynyddu nifer y plant saith mlwydd oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o 88 i 99 (cynnydd o 11 plentyn) dros bedair blynedd yn agos at fod yn ddigon uchelgeisiol.

Rydym wedi gweld yr arolwg rhieni ar ofal plant ([www.pleydellsmithyman.co.uk/assets/MT%20-%20English/pce.htm](http://www.pleydellsmithyman.co.uk/assets/MT%20-%20English/pce.htm) - Ionawr 2014). Er bod cwestiwn ynglŷn â chyfrwng iaith y ddarpariaeth a ddewisir gan rieni ar hyn o bryd, ac er bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn un o'r opsiynau y gellir ei ddewis i esbonio pam nad yw rhieni'n manteisio ar ofal plant, nid yw darpariaeth Gymraeg yn cael ei chynnig fel opsiwn ar gyfer gwella (e.e. Cwestiynau 26, 34, 44, 52). Mae'r Cynllun yn awgrymu bod holiadur penodol i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg mewn ysgolion ffydd - nid ydym wedi gweld yr holiadur hwnnw - mi fyddai wedi bod yn atodiad defnyddiol i'r Cynllun.

Cyfeirir yma at bolisiâu cludiant yr Awdurdod, a'r newidiadau sydd ar y gweill yn ddarostyngedig i ymgynghoriad. Ni roddodd y ddogfen ymgynghorol unrhyw sylw o gwbl i sgil effeithiau posib y newidiadau ar y sector cyfrwng Cymraeg. Mae UCAC yn grediniol y byddai torri cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg gan fod y pellteroedd cymaint yn hirach. Ond yn ogystal, mi fyddai toriad o'r fath yn debygol o effeithio'n negyddol ar benderfyniad rhieni i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y lle cyntaf, os nad ydynt yn gweld dilyniant hwylus i addysg ôl-16. Mi allai hynny danseilio'r sector gyfan, gan ei gwneud hi'n llawer anoddach i'r Awdurdod gyrraedd ei darged - er mor fychan yw'r cynnydd yr anelir ato.

**1.2 Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni:** Croesawn yr ymrwymiad i fesur y galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg a hynny'n fuan iawn.

**1.6 Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar:** Teimlwn nad oes esboniad digon clir o sut yn union y mae cyswllt yn cael ei greu rhwng y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a chynllunio'r Gymraeg mewn Addysg; mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu prif-ffrydio i waith cynllunio'r Awdurdod mewn perthynas â phobl ifanc yn gyffredinol.

### Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

**2.4 Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â chyfran y cwricwlwm a gyflwynir (a) drwy gyfrwng y Gymraeg (b) yn ddwyieithog o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog; sut ydych chi'n monitro sefyllfa ysgolion unigol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg? Beth yw eich cynlluniau o ran cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion penodol yn y Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3?:** Teimlwn

fod y Cynllun yn canolbwyntio'n llwyr ar y sector cyfrwng Cymraeg, ac yn osgoi'r cwestiwn ynghylch y posibilrwydd o addysgu rhai pynciau neu agweddau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion eraill, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

### **Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

### **Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

Gwyddom nad oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful, a bod dysgwyr yr Awdurdod yn croesi'r ffin i dderbyn addysg uwchradd yn Ysgol Rhydywaun, yn Rhondda Cynon Taf – a bod hynny'n bartneriaeth lwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod yr adran hon o'r cynllun yn ddigonol. Byddem wedi hoffi gweld y Cynllun yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- ystadegau perthnasol ynghylch y dysgwyr 14-19 sy'n byw o fewn yr Awdurdod, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – hyd yn oed os ydynt yn derbyn eu haddysg uwchradd y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod
- mae gan Ferthyr Tudful rôl i'w chwarae mewn trefniadau rhanbarthol (e.e. gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau, Rhwydwaith Ardal 14-19, Fforwm 14-19) ar ran y dysgwyr sy'n byw o fewn ei ffiniau; mi fyddai wedi bod yn fuddiol i gael gwybodaeth am rôl yr Awdurdod yn y trefniadau cydweithredol hyn
- sut y byddai modd cynnig rhagor o gyrsiau cyfrwng Cymraeg, ac yn enwedig cyrsiau galwedigaethol, mewn cydweithrediad â'r Coleg Addysg Bellach o fewn yr Awdurdod
- sut y gellid cynyddu'r niferoedd sy'n byw yn yr Awdurdod sy'n derbyn addysg 14-16 ac 16-19 drwy gyfrwng y Gymraeg
- beth fydd sgil effeithiau tebygol y newidiadau y bwriedir eu gwneud i gludiant ôl-16 ar y sector cyfrwng Cymraeg, ac yn benodol i'r garfan 16-19

Nid yw UCAC o'r farn ei bod hi'n dderbyniol i ddirprwyo'r cyfrifoldeb yn llwyr i Awdurdod(au) cyfagos, ac i beidio gosod unrhyw dargedau na champau gweithredu yn yr adran hon.

### **Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

**5.1 Gwella gwaith sgiliau llythrennedd Cymraeg:** Byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw'r 'Basic Skills Co-ordinator' yn siarad Cymraeg? Beth yw polisi recriwtio'r Awdurdod ar gyfer swyddi o'r fath? Os nad yw'r siaradwr Cymraeg, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau fod y Cydlynnydd yn darparu cefnogaeth lawn ac ymatebol i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg. Sonir am gefnogaeth ychwanegol i'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o wahanol ffynonellau - mi fyddem yn hoffi gweld rhagor o fanylder ynghylch union natur y gefnogaeth ychwanegol hon, er enghraifft, a yw'n cynnwys adnoddau a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg?

Nid yw'n gwbl glir a yw'r ystadegau yn y tabl ar gyfer y profion darllen yn cyfeirio at y profion darllen Cymraeg; mi fyddai'n ddefnyddiol gweld y canlyniadau ar gyfer y profion Cymraeg a Saesneg, ochr yn ochr, ar gyfer y blynyddoedd ysgol ble mae hynny'n berthnasol.

**5.4 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith:** Mae UCAC yn gryf o'r farn bod y targedau yn yr adran hon yn dangos diffyg uchelgais difrifol ar ran dysgwyr yr Awdurdod – cynnydd o 1% dros ddwy flynedd; a chynnydd o 0.4% dros ddwy flynedd. Nid yw targedau mor isel yn dderbyniol.

Mae'r niferoedd sy'n sefyll y cwrs byr yn llawer fawr iawn yn rhy uchel, ac mae'r niferoedd nad ydynt yn sefyll arholiad allanol o gwbl yn syfrdanol. Dywedir yn y testun mai'r bwriad yw "to ensure that every pupil in an English medium secondary school *is given the opportunity* to sit an external examination in Welsh second language by the end of KS4"; os mai dim ond 'cynnig y cyfle' a wneir, nid oes synod bod y ffigyrau mor isel. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod fod yn fwy cadarn o ran sicrhau bod dysgwyr yn sefyll arholiad allanol yn y Gymraeg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, ac felly i gynyddu'r niferoedd yn sylweddol.

## Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Dim sylw.

## Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon, gan gynnwys y bwriad i gynnal awdit blynyddol o sgiliau ieithyddol, a'r cynlluniau ar gyfer hyfforddiant i gynyddu sgiliau ieithyddol a methodolegol addysgwyr (athrawon a chynorthwyr dysgu) ymhob sector – gan gynnwys drwy Gymunedau Dysgu Proffesiynol. Galwn ar yr Awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer addysgwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg, a thu hwnt.



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@athrawon.com](mailto:ucac@athrawon.com)

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)